Cyngor Caerdydd

Gwasanaethau Gwastraff Masnachol

Peidiwch â gwastraffu'ch arian. Lleihewch wastraff.

LLEIHAU - AILDDEFNYDDIO - AILGYLCHU - 02920 717501

CYNNWYS

1) CYFLWYNIAD Tudalen 1

2) EIN GWASANAETHAU Tudalen 1

- Casgliadau Gwastraff
- Dewisiadau Cynwysyddion
- Llogi Sgip

3) BETH SY'N DIGWYDD I'CH DEUNYDD AILGYLCHU A'CH GWASTRAFF? Tudalen 5

- Ailgylchu mewn bagiau clir a bagiau glas
- Troi eich ailgylchu yn adnodd
- Bin gwastraff bwyd
- Troi eich gwastraff bwyd yn adnodd
- Gwastraff na ellir ei ailgylchu
- Adennill ynni o wastraff

4) GWASANAETHAU YCHWANEGOL Tudalen 8

- Gwasanaethau glanhau ar gyfer tir preifat
- Rheoli gwastraff digwyddiadau gwyrdd a chynaliadwy
- Cael gwared ar/torri gwrychoedd a gwair
- Cael gwared ar dipio anghyfreithlon, ymchwilio a chyngor ataliol

5) Y CYTUNDEB GWASTRAFF Tudalen 10

6) CYFLWYNO GWASTRAFF Tudalen 11

7) CYMWYSTERAU GWYRDD Tudalen 12

8) CWESTIYNAU CYFFREDIN Tudalen 12

9) GWYBODAETH GYSWLLT Tudalen 12

1) CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i weithio gyda'r busnesau yng Nghaerdydd i gynnig dull casglu cost-effeithiol sy'n gweddu anghenion eich busnes. Yng Nghyngor Caerdydd rydym yn cymryd eich gwastraff a'i droi yn adnodd.

Caiff deunydd ailgylchu ei ddidoli yn ein Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau cyfoes ac fe gaiff gwastraff bwyd ei droi yn gompost a gwrtaith. Caiff gwastraff cyffredinol ei yrru at gyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni lle caiff ei droi yn wres ac ynni.

Mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn cynnig datrysiadau gwastraff i fusnesau Caerdydd am fwy na 40 mlynedd. Gellir teilwra'r gwasanaethau a gynigwn i anghenion eich busnes heddiw gan ymgorffori arferion amgylcheddol cyfrifol.

PAM DEWIS CYNGOR CAERDYDD?

- ☑ **Gwasanaeth hyblyg i weddu eich anghenion busnes**
- ☑ **Gwasanaeth casglu a gwaredu gwastraff sefydledig**
- ☑ **Rydym yn troi eich gwastraff yn adnodd**

2) EIN GWASANAETHAU

Casgliadau Gwastraff

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig y gwasanaethau canlynol 7 diwrnod yr wythnos.

Gwastraff Cyffredinol

Mae gan Gyngor Caerdydd lawer o ddewis ar eich cyfer er mwyn gwaredu eich gwastraff. Gallwch weld meintiau'r biniau sydd ar gael ar y dudalen nesaf, ond os nad oes digon o ofod gennych i storio bin ar olwynion, gallwn ddarparu bagiau oren yn lle hynny.

Caiff eich gwastraff wedyn ei droi yn ynni, sy'n cael ei ddefnyddio i roi gwres a thrydan i gymunedau lleol.

Ailgylchu cymysg

Mae llawer o fanteision i wahanu eich deunyddiau ailgylchu oddi wrth eich gwastraff cyffredinol, gan gynnwys arbed arian i chi.

Mae manteision amgylcheddol hefyd, am fod y deunyddiau yn cael eu troi nôl yn adnodd (gweler tudalen 5 am fanylion). Gallwn gasglu ailgylchu cymysg mewn ystod o finiau neu ddarparu bagiau clir.

Ailgylchu ffrwd unigol

Cardfwrdd - gellir ei bacio'n fflat, ei fwndelu a'i gyflwyno i gael ei gasglu gyda label oren barod Cyngor Caerdydd wedi ei atodi. Os ydych yn cynhyrchu llawer o gardfwrdd, gallwn ddarparu bin ailgylchu ar eich cyfer.

Gwydr - gellir casglu symiau bychan o wydr gyda'r ailgylchu cymysg. Ar gyfer meintiau mwy gallwn ddarparu bin gwydr arbennig wedi ei atgyfnerthu.

Gwastraff bwyd

Gall gwahanu eich gwastraff bwyd arbed arian i'ch busnes, lleihau problemau gyda llygod mawr, lleihau ar lanast gwylanod a'ch helpu i gael cymwysterau gwyrdd.

Gallwn ddarparu dewisiadau storio ar gyfer defnydd mewnol ac allanol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler tudalen 6.

Gwastraff swmpus a chlirio safleoedd

Gallwn gasglu eich eitemau swmpus ar gais. I gael dyfynbris am eich eitem(au) nad sydd ei angen arnoch cysylltwch â'r tîm masnachol ar 029 20717501 neu e-bostiwch ni ar gwasanaethaumasnachol@caerdydd.gov.uk

Mae'n bosibl y bydd angen ffotograffau o'r eitemau arnom ni cyn rhoi dyfynbris.

Dewisiadau Cynwysyddion

Dewis biniau

DEWIS BINIAU A MEINTIAU



CADI BWYD (1 BAG) | **240 LITR** (3 - 4 BAG) | **360 LITR** (4 - 5 BAG) | **660 LITR** (8 - 10 BAG) | **1100 LITR** (15 - 18 BAG)

Os oes lle gennych i storio biniau, fe welwch eu bod yn:

- Hawdd eu symud
- Hawdd eu cloi yn ddiogel
- Dull da o leihau llygod mawr, arogleuon annymunol a gwastraff yn gollwng
- Dull diogel o storio gwrthrychau miniog a gwydr wedi torri

Dewis bagiau

Diffyg gofod neu dim llawer o wastraff? Efallai mai casgliad bag fyddai orau i chi.

BAG CLIR

Ar gyfer ailgylchu cymysg: caniau, tuniau, papur, plastig a gwydr ac ati. Gellir gosod bagiau parod ar ymyl y ffordd i'w casglu.

CADI BWYD

Cadi 35 litr ar gyfer eich gwastraff bwyd. Byddwch hefyd yn derbyn cyflenwad o fagiau bio am ddim.

BAG OREN

Ar gyfer gwastraff cyffredinol sydd wedi ei adael dros ben ar ôl i chi ddidoli eich ailgylchu a'ch gwastraff bwyd. Gellir gosod bagiau parod ar ymyl y ffordd i'w casglu.

LABEL OREN

I'w sticio ar fwndeli cardfwrdd yn barod i'w casglu. Ni ddylai maint y bwndeli fod yn fwy na sach oren.

AT DDEFNYDD MEWNOL YN UNIG (DDIM YN CAEL EI GASGLU)

BAG GLAS

Ar gyfer ailgylchu cymysg sy'n mynd i'ch bin ailgylchu os oes un gennych.

BLWCH AILGYLCHU SWYDDFA

Defnyddiwch un ai gyda bag clir neu fag glas gan gynnig dull cyflym a hawdd i ailgylchu yn y swyddfa.

Llogi Sgip

Gallwn ni gynnig amrywiaeth o wasanaethau llogi sgip at holl anghenion busnes. Gellir eu llogi fel gwasanaeth untro ar gyfer clirio, neu gallant fod yn rhan o gontract gyda chasgliadau rheolaidd.

Caiff yr holl wastraff a gesglir ei drefnu er mwyn dod o hyd i unrhyw ddeunydd ailgylchu, a bydd unrhyw wastraff na ellir ei ailgylchu yn mynd at Gyfleuster Adennill Ynni yng Nghaerdydd.

Sgip adeiladwr 6cy

65 - 75 bag



Sgip adeiladwr 8cy

80 - 90 bag



Efallai y bydd meintiau eraill ar gael.

Cysylltwch â ni am fanylion.

Gellir storio'r sgipiau hyn ar dir preifat yn unig ac nid ydynt yn addas i'w rhoi ar y briffordd gyhoeddus. Gall y sgipiau hyn fod yn agored, ar gau neu gyda chyfleusterau cywasgu.

Sgip Rholio 'mlaen Rholio ffwrdd 20cy

220 - 240 bag



Sgip Rholio 'mlaen Rholio ffwrdd 30cy

330 - 350 bag



Sgip Rholio 'mlaen Rholio ffwrddr 40cy

440 - 460 bag



Os ydych yn cynnig storio sgip ar y briffordd, bydd angen trwydded arnoch ond gallwn ni helpu i hwyluso hyn yn rhan o'r gwasanaeth. Gallwn hefyd gynnig conau a goleuadau i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r drwydded.

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau Iechyd a Diogelwch, ni ddylid llenwi sgipiau'n uwch na'r lefel a nodir.



Ni ddylid rhoi gwastraff peryglus megis Asbestos a Llysiau'r Dial yn y sgipiau.

3) BETH SY'N DIGWYDD I'CH DEUNYDD AILGYLCHU A'CH GWASTRAFF?

Ailgylchu mewn bagiau clir a bagiau glas

Gallwch roi bagiau clir ar y stryd yn barod i'w casglu a gallwch roi bagiau glas yn eich bin ailgylchu.

IE PLÎS:

- Post Sothach/Posteri Bach/ Amlenni
- Papurau Newydd/Cylchgronau
- Caniau Diod
- Tuniau Bwyd
- Poteli Plastig
- Papur Swyddfa
- Poteli Gwydr a Jariau
- Potiau Iogwrt
- Pecynnu plastig
- Cardfwrdd*

*Gallwch roi swm mawr o gardfwrdd yn syth i'ch bin ailgylchu os oes un gennych, neu holwch am ein gwasanaeth cardfwrdd label oren.

DIM DIOLCH:

- Carpion Papur
- Bagiau Plastig
- Ffoil Cegin
- Gwydr wedi torri
- Ffoil ffug gan gynnwys pecynnau creision
- Polystyren a Phapur Swigod
- Eitemau trydanol – holwch am ein gwasanaeth casgliadau swmpus
- CDs/DVDs/Tapiau VHS
- Tecstilau a dillad
- Tywelion Papur
- Seloffên
- Bwyd neu Wastraff Organig

Troi eich ailgylchu yn adnodd

Sut mae'r broses ailgylchu yn gweithio



Bin gwastraff bwyd

Gallwch roi eich bag cadi llawn yn eich cadi ymyl y ffordd neu fin brown ar olwynion – mae'n dibynnu ar faint y bin a ddewiswyd gennych.

IE PLÎS:

- Bwyd wedi'i goginio neu heb ei goginio
- Plisgyn Wyau
- Crwyn ffrwythau a llysiau
- Pysgod
- Bagiau Te
- Cig a chynnyrch llaeth
- Bwyd dros ben
- Malurion ffa coffi

Cofiwch dynnu'r deunydd pacio cyn rhoi eich bwyd yn eich bag bio.

DIM DIOLCH:

- Cartonau sudd ffrwythau
- Bagiau Plastig
- Plastig
- Gwydr
- Papur
- Polystyren
- Metel
- Pridd neu Rwbel
- Gwastraff Anifeiliaid
- Napcynau
- Cyllyll a Ffyrc
- Hylifau
- Carcas anifeiliaid
- Gwastraff Gardd

Troi eich gwastraff bwyd yn adnodd

Sut mae Treulio Anerobig yn gweithio

Gwastraff na ellir ei ailgylchu

Caiff pob gwastraff cyffredinol ei yrru at Gyfleuster Adennill Ynni, lle caiff ei losgi. Golyga hyn fod yna rai eitemau nad sy'n ddiogel i ni eu casglu fel gwastraff cyffredinol. Fodd bynnag mae'n bosib y gallwn waredu'r eitemau hyn mewn amrywiol ffyrdd. Cysylltwch am ragor o wybodaeth.

DIM DIOLCH:

- Eitemau trydanol
- Blychau nwy
- Ffrwydron neu dân gwyllt
- Gwastraff peryglus
- Asbestos
- Teiars
- Bwrdd plastr
- Metel swmpus
- Bonion coed
- Concrid neu rwbel
- Unrhyw eitemau swmpus*

*Unrhyw eitemau trymach na 25kg neu fwy na:
1.2m x 0.2m x 0.1m
0.8m x 0.8m x 0.1m
0.6m x 0.6m x 0.6m

Adennill ynni o wastraff

Sut mae adennill ynni yn gweithio



1. Caiff gwastraff ei ddidoli gan y cwsmer.
2. Gellir didoli gwastraff rhag blaen i dynnu unrhyw ddeunyddiau ailgylchu a adawyd.
3. Caiff gwastraff ei fwydo i'r llosgwr
4. Mae'n llosgi ar dros 850°C
5. Mae gwres yn mynd i foeler sy'n cynhyrchu stêm
6. Mae'r stêm yn gyrru tyrbin sy'n cynhyrchu trydan ar gyfer tai.
7. Gellir gyrru unrhyw wres sydd dros ben drwy bibelli gwresogi i wresogi adeiladau gerllaw.
8. Caiff nwyon niweidiol eu gwaredu.
9. Caiff gronynnau eu hidlo.
10. Caiff deunydd a gasglwyd gan y system lanhau awyr ei yrru i'w drin.
11. Caiff pob allyriant ei fonitro i gyrraedd safonau amgylcheddol caeth.
12. Caiff llwch ei gasglu ar waelod y llosgwr.
13. Mae magnedau yn tynnu unrhyw fetalau sy'n weddill i'w hailgylchu
14. Mae modd defnyddio'r llwch mewn projectau adeiladu megis ffyrdd newydd.

4) GWASANAETHAU YCHWANEGOL

Gwasanaethau glanhau ar gyfer tir preifat

Mae gennym dîm ymroddedig o weithwyr glanhau, ynghyd â fflyd fodern o gerbydau a pheiriannau glanhau. Gallwn gynnig gwasanaethau sy'n amrywio o osod/cael gwared ar finiau sbwriel, cael gwared ar sbwriel â llaw ac yn fecanyddol, cael gwared â nodwyddau a golchi jet ar gyfer cael gwared â staeniau anodd. Gallwn ni hefyd drefnu gwasanaeth clirio dail sydd wedi cwympo ar lwybrau preifat, ar ffyrdd neu ar feysydd parcio.

Rheoli digwyddiadau gwyrdd a chynaliadwy

Rydym wedi rheoli digwyddiadau mawreddog megis Cynghrair y Pencampwyr UEFA, Ras Fôr Volvo a Gemau Olympaidd 2012. Gall ein pecyn digwyddiadau gynnwys ystod o wasanaethau.

Mae ein tîm profiadol yn gallu cynnig archwiliadau a chyngor ar wastraff, i wneud eich digwyddiad yn wyrdd ac yn gynaliadwy. Gallwn gynnig pob cynhwysydd gwastraff, llogi sgipiau, arwyddion, rheoli gwastraff/casglu sbwriel ar y diwrnod.

Byddwn hefyd yn darparu gwasanaethau i chi yn ystod gosod, a chlirio eich digwyddiad. Yn ogystal, fel rhan o'n pecyn rheoli digwyddiadau, byddwn yn gallu darparu adroddiad rheoli gwastraff manwl llawn i chi.



Cael gwared ar/torri gwrychoedd a gwair

Angen toriad? Neu gyngor ar gael gwared ar lystyfiant? Gallwn ni gynnig cyngor a gwasanaethau i chi. Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion.

Cael gwared â thipio anghyfreithlon, ymchwilio a chyngor ataliol

Ydych chi wedi dioddef tipio anghyfreithlon? Gall ein tîm cymwys o ymchwilwyr tipio anghyfreithlon gynnig cyngor ataliol, ynghyd â chael gwared ar yr hyn sydd wedi'i dipio ac ymchwilio i dipio anghyfreithlon.

capito
Capitol
CCL1823
PSI-67
PSI-44

5) Y CYTUNDEB GWASTRAFF

Mae hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi eich busnes. Mae'n cynnwys manylion cyswllt a thalu, lefel y gwasanaeth a ddewiswyd gennych a'r telerau ac amodau llawn.

Y nodyn trosglwyddo gwastraff

Bydd angen Nodyn Trosglwyddo Gwastraff arnoch os bydd eich gwastraff yn cael ei gasglu gan unrhyw sefydliad, nid dim ond gan Gyngor Caerdydd.

Mae'r nodyn yn rhoi ar glawr:

- Y math o wastraff ac ailgylchu y mae eich busnes yn ei gynhyrchu
- O ba le y daw'r gwastraff a'r deunydd ailgylchu
- Sut caiff ei gyflwyno ar gyfer ei gasglu
- Pwy sy'n casglu a mynd i'r afael â'ch gwastraff ac ailgylchu

Mae'r nodyn hefyd yn gofyn am ddatganiad gennych i ddweud eich bod wedi ystyried ailddefnyddio neu ailgylchu cyn penderfynu gwaredu eich gwastraff.

Eich anfoneb

Byddwch yn derbyn anfoneb misol gennym, ond mae sawl modd o dalu ar gael gan gynnwys Debyd Uniongyrchol. Holwch am fanylion a gallwn eich helpu i ddewis y dull talu gorau ar gyfer eich busnes chi.

Dyletswydd gofal

O dan adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, rhaid i bob busnes:

- Sicrhau fod y sefydliad sy'n casglu'r gwastraff wedi ei drwyddedu i wneud hynny
- Cymryd camau i storio gwastraff ac ailgylchu yn saff a diogel fel na all ddianc a niweidio'r amgylchedd neu niweidio'r cyhoedd
- Rhowch ddisgrifiad ysgrifenedig i ni o'r gwastraff gan ddefnyddio'r Nodyn Trosglwyddo Gwastraff os mai'r bwriad yw trosglwyddo'r gwastraff a'r deunyddiau ailgylchu i sefydliad arall

6) CYFLWYNO GWASTRAFF

Glynwch at gyfyngiadau amser cyflwyno eich gwastraff os yw eich busnes yng nghanol y ddinas.

Cyflwynwch wastraff ar y dyddiau cywir yn unig fel y nodwyd yn eich contract casglu gwastraff.

Mae'n rhaid i'r gwastraff ffitio y tu mewn i'r bin gyda'r caead ar gau. Ni chaniateir gwastraff wrth ymyl y bin.

Os yw'n gasgliad bagiau, cyflwynwch wastraff yn y bagiau a ddarparwn yn unig.

7) CYMWYSTERAU GWYRDD

SAFON REOLI AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i Safon Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Gallwch gofrestru hefyd a bydd eich busnes yn elwa ar system reolaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i chi.
I ddarganfod mwy ewch i **www.greendragonems.com**

8) CWESTIYNAU CYFFREDIN

Q. Sut allaf i newid fy nghontract?

A. Cysylltwch a gallwn drafod y camau nesaf sydd angen i chi eu cymryd.

Q. Sut allaf gael mwy o fagiau?

A. Cysylltwch a gallwn roi bagiau ychwanegol neu wneud casgliad ychwanegol. Byddwn fel arfer yn eu darparu o fewn 2-3 diwrnod gwaith.

Q. A oes angen i mi lanhau neu olchi deunyddiau ailgylchu?

A. Lle bo'n bosibl, sicrhewch bod y blychau, poteli a'r tuniau yn wag ac wedi eu golchi cyn eu gosod yn y bagiau ailgylchu.

Q. Yn achlysurol rwy'n cynhyrchu gwastraff ychwanegol. Sut allaf drefnu casgliad ychwanegol?

A. Gallwn drefnu un casgliad ychwanegol yn unig neu amserlen o gasgliadau ychwanegol i fodloni eich anghenion. Cysylltwch â ni ar (029) 2071 7501 neu e-bostiwch gwasanaethaumasnachol@caerdydd.gov.uk

9) GWYBODAETH GYSWLLT

029 2071 7501

gwasanaethaumasnachol@caerdydd.gov.uk

gwastraffmasnacholcaerdydd.co.uk

Gwasanaethau Masnachol
Cyngor Caerdydd
Ffordd Lamby
Caerdydd
CF3 2HP